Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Arwydd Hollywood LLANRWST




Gosodwyd arwydd Hollywood LLANRWST enfawr yng Nghoedwig Gwydir er mwyn nodi'r Eisteddfod Genedlaethol yn Llanrwst, ariannwyd y prosiect hwn gan Raglen Datblygu Gwledig Conwy - Conwy Cynhaliol.

Cafodd yr arwydd, sydd wedi bod ar ddangos yn y goedwig ers mis Gorffennaf ac wedi bod yn hynod boblogaidd ymysg trigolion lleol ac ymwelwyr fel ei gilydd, ei dynnu i lawr yr wythnos diwethaf oherwydd bod ei drwydded cynllunio wedi dod i ben.

Ond mae trigolion lleol bellach yn awyddus iawn i osod strwythur mwy parhaol yno.

Cymeradwywyd y syniad prosiect gan y Grŵp Gweithredu Lleol ym mis Ionawr ar ôl i Iwan Glyn Williams o Ffiwsar ei gyflwyno.

"Gan mai Llanrwst oedd yn cynnal yr Eisteddfod, roeddwn yn awyddus i feddwl am syniad a fyddai'n ymestyn y profiad i ymwelwyr, ac yn cael effaith gadarnhaol a chofiadwy ar eu hymweliad â Llanrwst" meddai Iwan.

"Mae wedi bod yn wych gweld yr arwydd i fyny ar y llechwedd ers mis Gorffennaf, ac rwyf wedi colli cyfri ar yr holl sylwadau cadarnhaol amdano. Roeddwn i'n gobeithio y byddai'r prosiect yn ffordd hwyliog o ymgysylltu â thrigolion lleol ac ymwelwyr, ond nid oeddwn i wedi disgwyl iddo ennyn gymaint o sylw ag y mae wedi'i gael, mae'n wych gweld gymaint o bobl yn awyddus i'w wneud yn atyniad parhaol."

Cefnogwyd y prosiect gan lawer o wirfoddolwyr a ddaeth at ei gilydd i baratoi, peintio a gosod yr arwydd yng nghoedwig Gwydir.

Dywedodd Elen Haf Edwards, Rheolwr y Strategaeth Ddatblygu Wledig, bod yr arwydd wedi bod yn wych i'r ardal a'u bod wrth eu boddau â'r holl sylw y mae wedi'i ennyn.

"Rydym ni, fel y Grŵp Gweithredu Lleol, yn annog syniadau prosiect arloesol ac roeddem wrth ein boddau pan gyflwynodd Iwan y syniad o godi arwydd Hollywood. Mae'n sicr wedi annog pobl i grwydro'r ardal leol, yn hytrach nag aros ar Faes yr Eisteddfod, ac roedd yn wych gweld pobl yn parhau i ymweld â'r ardal tan i'r arwydd gael ei dynnu i lawr."

Mae’r arwydd wedi derbyn llawer o sylw ar y cyfryngau cymdeithasol a rhannwyd llawer o luniau ohono fel rhan o’r gystadleuaeth a gynhaliwyd yn ystod wythnos yr Eisteddfod. Anogwyd pobl i ymweld â’r safle a thynnu hunlun gyda’r arwydd, gan ddefnyddio’r hashnod #HunlunLlanrwst ar Facebook, Instagram a Twitter i gael cyfle i ennill £150.

Cafodd y prosiect ei ariannu drwy'r rhaglen Datblygu Gwledig LEADER ar gyfer Conwy, Conwy Cynhaliol.  I gael rhagor o wybodaeth am Gonwy Cynhaliol, a’r Rhaglen Datblygu Gwledig – ewch i https://ruralconwy.org.uk/home/ neu ffoniwch ni ar 01492 576673 neu grwpgweithredulleolconwy@conwy.gov.uk.

Os oes gennych chi syniad arloesol yr ydych yn awyddus i’w dreialu yn yr ardal wledig, cysylltwch â ni, byddem wrth ein boddau yn clywed gennych.